

CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod Misol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yn Neuadd yr Eglwys, ar 12fed Mawrth 2018

Minutes of Monthly Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at the Church Hall, on 12th March 2018

Yn Bresennol/Present:

Cyng/Cllrs Eileen Curry, Douglas Davies, Keith Evans, Peter Evans, Mike Hotson, Aled Jones, Gethin Jones, Llyr Jones, Susan Lloyd, Abby Reid

Ymweliad

Roedd PCSO Sarah Moore o Orsaf Heddlu Aberaeron yn bresennol yn y cyfarfod. Hysbysodd y Cyngor o'r troseddau canlynol a oedd wedi digwydd yn Ward Llandysul ac yn Wardiau Pont-siân, Capel Dewi a Thre-groes.

Ward Llandysul
Ymddygiad Gwrthgymdeithasol – 4 galwad
Ymosodiad – 1 trosedd
Camdefnyddio cyffuriau – 2 achos
Aflonyddu – 1 achos
Ymyrryd â cherbyd modur – 1 achos

Ward Pont-siân, Capel Dewi a Thre-groes
Dwyn – 1 achos
Ymosodiad – 1 trosedd

Hysbyswyd y PCSO gan y Cynghorwyr o'r ffaith bod mwy o siarad am gyffuriau yn Llandysul, a gofynnwyd a roddir anerchiadau mewn ysgolion am y peryglon.

Holwyd hefyd am oryrru yn Llandysul ac fe'u hysbyswyd o'r ffaith nad yw cynllun o'r fath yn bosibl yn Llandysul. Hysbysodd y PCSO y Cynghorwyr o'r ffaith ei bod hi'n mynd allan â phlant ysgol mewn un pentref i ddal troseddwr sy'n goryrru, a bod yn rhaid iddynt esbonio i'r plant pam yr oeddent yn goryrru. Bydd Cyng Mike Hotson yn ystyried y mater hwn ymhellach.

Visit

PCSO Sarah Moore from Aberaeron Police Station was present at the meeting. She informed the Council of the following offences that had happened in the Llandysul Ward and Pontsian, Capel Dewi and Tregroes Wards.

Llandysul Ward
Anti Social Behaviour – 4 calls
Assault – 1 offence
Drug abuses – 2 cases
Harassment – 1 case
Interference with a motor vehicle – 1 case

Pontsian, Capel Dewi and Tregroes Ward
Theft – 1 case
Assault – 1 offence

Councillors informed the PCSO of the increased talk about drugs in Llandysul and asked if talks were actually given in schools about the perils.

They also asked about speeding in Llandysul and were told that such a scheme was not possible in Llandysul. The PCSO informed the Councillors that in one village she takes school children out to catch speeding offenders and that they had to explain to the children of why they were speeding.

Cllr Mike Hotson would look further into this matter.

- 1 Cafwyd **ymddiheuriadau** gan Gynghorwyr Tom Cowcher, Andrew Howell a Chynghorydd Sir Peter Davies, a chan Llŷr Jones, a nododd y byddai'n hwyr.
- 2 **Datgelu Buddiannau** Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau.
- 3 Derbyniwyd bod **cofnodion** y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 19 Chwefror 2018 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.
- 4 **Apologies** were received from Cllrs Tom Cowcher, Andrew Howell and County Councillor Peter Davies and Llyr Jones for being late.
- 5 **Declarations of Interest** There were no declarations of interest.
- 6 **Minutes** of the monthly meeting held on 19th February 2018 were accepted as correct and signed by the Chairman.

Materion yn Codi

Meinciau

Adroddwyd bod angen paentio 1 mainc ym Maesymeillion ac 1 yng Nghapel Dewi.

Cynllunio

Penderfynwyd y bydd y clerc anfon e-bost at Gynghorwyr Tom Cowcher ac Andrew Howell i holi a oeddent wedi mynychu'r Hyfforddiant Cynllunio a gynhaliwyd fis diwethaf.

(Ymunodd Llŷr Jones â'r cyfarfod)

4 Rhoddion

Ni chafwyd unrhyw geisiadau am roddion.

5 Materion i'w trafod

Goleuadau Nadolig

Dosbarthwyd copi i'r holl aelodau o'r cynllun a baratowyd gan Abby Reid, sy'n nodi lleoliad yr holl gysylltiadau trydanol ar gyfer y Goleuadau Nadolig. Penderfynwyd mesur hyd y goleuadau y mae eu hangen, a chael copi o gatalog goleuadau Nadolig erbyn y cyfarfod nesaf.

Parc Coffa Llandysul

Penderfynwyd y dylai'r clerc gael dyfynbrisiau er mwyn disodli'r ffens erbyn y cyfarfod nesaf.

Roedd y clerc wedi cael pris am y gwydr gwydn ar gyfer yr hysbysfwrdd yn y Maes Parcio, sef £160 (heb fod yn cynnwys ei osod). Penderfynwyd y dylai'r clerc gael pris arall am ei ddisodli gyda Phersbecs yn lle gwydr.

Materion Wardiau

Mynegodd y cynghorwyr eu diolch i'r holl grwpiau gwirfoddolwyr yn Llandysul.

Esboniodd Cyng Keith Evans ei fod wedi bod yn siarad gyda'r Pwyllgor Craffu ynghylch cael gwared ar y tâl talu ac arddangos yn Llandysul.

Matters Arising

Benches

It was reported that there was 1 bench in Maesymeillion and 1 in Capel Dewi that needed painting.

Planning

It was decided that the clerk email Cllrs Tom Cowcher and Andrew Howell to see if they attended the Planning Training last month.

(Llyr Jones joined the meeting)

4 Donations

There were no requests for donation.

5 Matters for discussion

Christmas Lights

A copy of the plan prepared by Abby Reid of where all the electrical connections for the Christmas Lights are located was distributed to all members. It was decided to measure the length of lights needed and to get a copy of the festive lighting catalogue by the next meeting.

Llandysul Memorial Park

It was decided that the clerk get quotations for the replacement of the fence by the next meeting.

The clerk had received a price for the toughened glass for the notice board in the Car Park for £160 (price without fitting). It was decided that the clerk get another price to replace it with Perspex instead of glass.

Ward Matters

Councillors expressed their gratitude to all groups of volunteers in Llandysul.

Cllr Keith Evans explained that he had been speaking with the Scrutiny Committee with regards to getting rid of the pay and display charge in Llandysul. All the Committee were in favour but

Roedd y Pwyllgor cyfan o blaid, ond wrth ei gyflwyno gerbron y Cyngor llawn, roeddent yn teimlo bod angen rhagor o wybodaeth arnynt cyn gwneud penderfyniad.

Hysbyswyd y cyfarfod gan Aled Jones bod y Gymdeithas Chwaraeon bellach mewn sefyllfa i brynu diffibriliwr, ac ysgrifennwyd sic e am y swm o £500.

Pren-gwyn

Hysbyswyd y cyfarfod gan Gyng Eileen Curry bod cyfanswm yr ysbwriel ar ein ffyrdd yn cynyddu. Dywedodd hefyd bod y Ffordd o Gapel Carmel tuag at Bont-siân yn cynnwys llawer o ysbwriel. Penderfynwyd y bydd Cyng Llŷr Jones yn gofyn i'r Ffermwyr Ifanc ym Mhont-siân am help i lanhau'r ffyrdd.

Capel Dewi

Hysbyswyd y cyfarfod gan Gyng Douglas Davies bod dŵr a mwd yn dod i lawr y rhiw o Rhyd y Ceir, gan achosi llifogydd yn y lloches bws ac ar y sgwâr yng Nghapel Dewi. Bydd y cler c yn cysylltu â'r Cyngor Sir i weld a oes modd iddynt ddelio â'r sefyllfa.

Maesymeilion

Roedd y ffordd wedi cael ei glanhau.

Hysbyswyd y cyfarfod gan Gyng Abby Reid ei bod yn archwilio'r offer chwarae yn y parc yn rheolaidd. Penderfynwyd y dylid llunio rhestr gyfeirio er mwyn sicrhau yr ystyrir pob agwedd. Adroddodd bod mwsogl yn tyfu ar y tarmac ac y byddai hi'n ceisio ei lanhau. Penderfynwyd y dylai'r cler c gysylltu â Rospa i gael copi o'r adroddiad archwilio blynyddol.

Ar y cyd â'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd, penderfynwyd y dylai'r cler c gymryd mwy o ofal pan fydd angen i'r Cyngor ymateb i ymgynghoriadau, gan sicrhau eu bod yn cael cynnwys ar yr Agenda.

Penderfynwyd y dylai'r cler c gysylltu â'r holl gontractwyr y mae ganddynt gontract gyda'r Cyngor Cymuned ar hyn o bryd er mwyn gwneud gwaith trwsio a chynnal a chadw, gan ofyn a ydynt oll yn fodlon parhau gyda'u contractau am flwyddyn arall.

6 Cydnabod derbyn Rhoddion

when brought to full Council they felt the needed more information before making a decision.

Aled Jones informed the meeting that the Sport Society was now in a position to purchase a defibrillator and a cheque was written for £500

Prengwyn

Cllr Eileen Curry told the meeting that litter on our roads was on the increase. She also said that the Road from Carmel Chapel towards Ponsian was very littered. It was decided that Cllr Llyr Jones ask the Young Farmers in Ponsian for help in cleaning up the roads.

Capel Dewi

Cllr Douglas Davies informed the meeting that excess water and mud was coming down the hill from Rhyd y Ceir and flooding the bus shelter and square in Capel Dewi. The clerk to contact the County Council to see if they can rectify the situation.

Maesymeilion

The road had been cleaned.

Cllr Abby Reid informed the meeting that she was regularly checking the play equipment in the park. It was decided that a check-list is drawn up to ensure all aspects are looked at. She reported that moss is growing on the tarmac and she would attempt to clean it. It was decided that the clerk check with Rospa and to get a copy of the annual report of the inspection.

It was decided that the clerk in conjunction with the Chairman and Vice-Chair take more care when the Council needs to respond to a consultation and make sure they are placed on the Agenda.

It was decided that the clerk contact all the contractors that are currently in contract with the Community Council with regards to repair and maintenance and ask if they are all willing to carry on with their contracts for another year.

6 Acknowledge receipt of Donations

An email was received from Calon Tysul to thank the Community Council for the £5000 donation.

Correspondence

Cafwyd neges e-bost gan Galon Tysul yn diolch i'r Cyngor Cymuned am y rhodd o £5000.

Gohebiaeth

Cafwyd y canlynol gan

Geredigion – Cafwyd nodiadau o'r cyfarfod rhwng Cyngor Sir Ceredigion a'r Cynghorau Tref a Chymuned yn Ne Ceredigion, ac fe'u dosbarthwyd i'r holl aelodau.

ULIC/SLCC – Negeseuon e-bost – Cyflwynwyd rhestr o'r holl negeseuon e-bost a anfonwyd at y clerc ac a anfonwyd ymlaen at yr aelodau rhwng 19 Chwefror ac 11 Mawrth 2018.

Cafwyd copi o'r rheoliadau ariannol newydd ynghylch talu taliadau i Gynghorwyr unigol. Dosbarthwyd y rheoliadau i'r holl Gynghorwyr.

Cafwyd copi o gylchgrawn Clerk a Clerks and Councils direct.

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru Cafwyd llythyr yn gofyn i'r clerc gadarnhau cyfeiriad e-bost y Cyngor Cymuned, gan bod y gwasanaeth yn ceisio bod mor ddi-bapur ag y bo modd.

Aren Cymru

Cafwyd llythyr yn gofyn am help i godi arian gan aren Cymru.

HAGS

Cafwyd cylchgrawn Inclusive Playground Solutions gan Hags.

7 Cynllunio:

Cafwyd hysbysiad o Gyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygiad a gynhelir ar 14.03.18.

Cafodd y Cyngor Cymuned y cynlluniau canlynol a bydd y Cynghorwyr yn anfon eu safbwyntiau i'r clerc erbyn 20 Mawrth

A180217 – Tir gerllaw Pentir, Heol Llynyfran, Llandysul – Datblygiad preswyl, 12 annedd.

8. Anfonebau

Llinos Jones – Cafwyd anfoneb am y swm o £157.25 am y gwasanaeth cyfieithu ym mis Chwefror, a derbyniwyd y dylid ei Thalu.

The following were received from **Ceredigion** - Notes from the meeting between Ceredigion County Council and the Town and Community Councils in Ceredigion South of the County was received and had been distributed to all members.

OVW/SLCC – Emails – A list of all the emails sent to the clerk and forwarded to members from 19th February 2018 – 11 March 2018 was tabled.

A copy of the new financial regulations relating to payments to individual Councillors was received. The regulations had been sent to all Councillors.

A copy of the Clerk and Clerks and Councils direct magazine was received,

Mid and West Wales Fire and Rescue A letter was received asking for the clerk to confirm the Community Councils email address as the service is becoming as paperless as possible.

Kidney Wales

Letter was received asking for help with fundraising from kidney Wales.

HAGS

Inclusive Playground Solutions magazine was received from Hags.

7 Planning:

Notice of the Development Control Committee Meeting to be held on 14.03.18 was received.

The following plans were received by the Community Council and Councillors to send their views to the clerk by the 20th of March

A180217 – Land adjacent to Pentir, Llynyfran Road, Llandysul – Residential development 12 dwellings.

8. Invoices

Llinos Jones – Invoice for February translation was received for the sum of £157.25 and cheque was passed for Payment.

Abacus Cleaning- A cheque for the sum of £213.75 was issued for maintenance of bus shelters

Abacus Cleaning- Ysgrifennwyd sic am y swm
o £213.75 am wneud gwaith cynnal a chadw ar
lochesau bws

Arwyddo Sieciau/Signing of Cheques:

Gorchynnwyd ac i'w tynnu gan y Trysorydd/

Ordered and same are hereby drawn on the Treasurer:-

| | | £ c/£ p | |
|----------------------|----------------------------|---------|--------|
| Cymdeithas Chwaraeon | Rhodd/ Donation | 4000.00 | 000646 |
| Park Coffa | Rhodd/Donation | 2500.00 | 000647 |
| Nia Davies | Cyflog y Clerc/Clerk Wages | 423.24 | 000648 |
| HMRC | Cyflog y Clerc/Clerk Wages | 105.80 | 000649 |
| Nia Davies | Postio/Postage | 24.00 | 000650 |
| Cymdeithas Chwaraeon | Rhodd/Donation | 300.00 | 000651 |
| Llinos Jones | Cyfieithu/Translation | 157.25 | 000652 |
| Abacus Cleaning | Cynnal a Chadw/Maintenance | 213.75 | 000653 |

12/03/18